



CYNLLUN MARCIO TAG UG

HAF 2016

**SEICOLEG - UNED 2 (NEWYDD)
2290N20-1**

Fersiwn Cymraeg o'r cynllun marcio cyfrwng Saesneg gwreiddiol yw hwn. Ni chafodd ei ddefnyddio'n ymarferol yn y gynhadledd farcio

RHAGARWEINIAD

Defnyddiwyd fersiwn Saesneg gwreiddiol y cynllun marcio hwn gan CBAC ar gyfer arholiad 2016. Penderfynwyd arno'n derfynol yn dilyn trafodaeth fanwl mewn cynadleddau arholwyr gan yr holl arholwyr oedd yn ymwneud â'r asesiad. Cynhaliwyd y gynhadledd yn fuan ar ôl sefyll y papur fel y gellid cyfeirio at yr amrediad llawn o ymatebion ymgeiswyr, gyda sgriptiau wedi'u llungopio yn sail i'r drafodaeth. Amcan y gynhadledd oedd sicrhau bod y cynllun marcio wedi'i ddehongli a'i gymhwysu yn yr un modd gan yr holl arholwyr.

Gobeithir y bydd y wybodaeth hon o gymorth ond cydnabyddir ar yr un pryd y gallai fod gan athrawon safbwyntiau gwahanol ynglŷn â manylion neu ddehongli gan nad ydynt wedi bod yn rhan o'r gynhadledd farcio.

Mae'n flin gan CBAC ond nid oes modd iddo ymgymryd ag unrhyw drafodaeth na gohebiaeth am y cynllun marcio hwn.

TAG SEICOLEG

Uned 2

Cwestiwn	AA1	AA2	AA3	CYFANSWM
1	10		10	20
2	3			3
3	3			3
4	6	2		8
5	2			2
6		25		25
7		11	8	19
CYFANSWM	24	38	18	80

TAG SEICOLEG

CYNLLUN MARCIO HAF 2016

ADRAN A – Dadleuon Cyfoes

1. 'Mae adroddiadau llygad-dyst gan blant yn llai dibynadwy na rhai gan oedolion.'
Trafodwch ddibynadwyedd tystiolaeth llygad-dyst gan gyfeirio at y cyd-destun uchod.

[20]

Mae'r ddadl hon yn cael ei chysylltu â'r dull gwybyddol. Fodd bynnag, gall yr ymatebion ddefnyddio deunydd o unrhyw ymagwedd a phersbectif mewn seicoleg. Gellir cyfeirio hefyd at dystiolaeth economaidd, cymdeithasol a gwleidyddol (cyn belled â bod cysylltiad amlwg â'r mater seicolegol), yn ogystal ag ystyriaeth o amrywiaeth gymdeithasol a diwylliannol.

Gellir rhoi marciau am drafodaeth o'r canlynol:

- Tystiolaeth yn ymwneud a dibynadwyedd tystiolaeth llygad-dyst mewn oedolion a phlant e.e. Goodman et al (2001), Cassel a Bjorklund (1995), Yuille (1988), a Loftus a Palmer (1974) etc.
- Enwi ymchwil sy'n effeithio ar ddibynadwyedd tystiolaeth llygad-dyst e.e. oedran y tyst (Coxon a Valentine, 1997), rôl emosiwn (achosion o gam-drin yn erbyn achosion heb gamdriniaeth (Goodman, 2001)), cof ailadeiladol (Bartlett, 1932), cwestiynau arweiniol/camwybodaeth ar ôl y digwyddiad (Loftus a Zanni, (1975), ac Yuille a Cutshall (1987)) tueddiadau priodoli a ffocws ar arfau.
- Ystyriaeth o amrywiaeth ddiwylliannol a chymdeithasol e.e. stereoteipio o ran hil (Allport and Postman, 1945), ac effaith y cyfryngau.
- Ceci (1972).
- Unrhyw ddeunydd priodol arall

Marciau	AA1
10	<ul style="list-style-type: none">• Dewis da o enghreifftiau i gefnogi'r pwyntiau a wneir.• Lefel cywirdeb yn drylwyr.• Mae dyfnder ac amrediad i'r deunydd a gynhwysir.• Defnydd effeithiol o derminoleg drwy'r ateb.
7-9	<ul style="list-style-type: none">• Enghreifftiau priodol.• Lefel cywirdeb yn rhesymol.• Mae dyfnder ac amrediad i'w gweld yn y deunydd a ddefnyddiwyd, ond efallai nad ydynt yn gytbwys.• Defnydd da o derminoleg.
4-6	<ul style="list-style-type: none">• Efallai na fydd yr enghreifftiau'n briodol bob amser.• Lefel cywirdeb yn sylfaenol.• Dyfnder neu amrediad yn y deunydd a roddir.• Peth defnydd o derminoleg briodol.
1-3	<ul style="list-style-type: none">• Yr enghreifftiau yn gyfyngedig a heb eu gwneud yn berthnasol bob amser.• Lefel cywirdeb yn arwynebol.• Defnydd prin iawn o derminoleg briodol.
0	<ul style="list-style-type: none">• Ateb amhriodol wedi'i roi.• Dim ymgais i roi ymateb.

Gellir rhoi marciau am drafodaeth o'r canlynol:

- Gosodiadau a chymariaethau gwerthusol am gywirdeb tystiolaeth llygad-dyst rhwng oedolion a phlant.
- Goblygiadau moesegol caniatáu defnyddio plant fel tystion – amddiffyn rhag niwed, cydsyniad ayb.
- Goblygiadau moesegol tystiolaeth llygad-dyst annibynadwy – Camweinyddiad cyfiawnder (e.e. Ronald Cotton – Project Diniweidrwydd).
- Dylanwad y dystiolaeth ar benderfyniadau gwleidyddol (e.e. newidiadau yn y gyfraith i amddiffyn tystion sy'n blant).
- Priodoldeb tystiolaeth hanesyddol o'i gymhwyso at gymdeithas fodern – a yw ymchwil cynnar i dystiolaeth llygad-dyst yn berthnasol? A yw technegau newydd wedi gwella dibynadwyedd tystiolaeth llygad-dyst yn achos strategaethau fel y Cyfweliad Gwybyddol?
- Gwerthuso'r ymchwil (rhaid ei osod yn ei gyd-destun) e.e. materion dilysrwydd gydag arbrofion labordy yn adlewyrchu tystiolaeth llygad-dystion go iawn.
- Gosodiadau a chymariaethau gwerthusol am gywirdeb tystiolaeth llygad-dyst

Marciau	AA3
10	<ul style="list-style-type: none"> • Trafodaeth drylwyr o ddwy ochr y ddadl. • Mae'r sylwadau gwerthusol yn amlwg yn berthnasol i'r cyd-destun. • Mae dyfnder ac amrediad o ddeunydd i'w gweld • Y strwythur yn rhesymegol drwy'r ateb. • Mae'n dod i gasgliad priodol ar sail y dystiolaeth a gyflwynir.
7-9	<ul style="list-style-type: none"> • Trafodaeth resymol o ddwy ochr y ddadl. • Mae'r sylwadau gwerthusol yn berthnasol i raddau i'r cyd-destun. • Mae dyfnder ac amrediad o ddeunydd i'w gweld, ond efallai nad ydynt yn gytbwys. • Strwythur rhesymegol ar y cyfan. • Mae'n dod i gasgliad resymol ar sail y dystiolaeth a gyflwynir.
4-6	<ul style="list-style-type: none"> • Trafodaeth sylfaenol o ddwy ochr y ddadl NEU trafodaeth resymol o un ochr y ddadl yn unig. • Y sylwadau gwerthusol yn gyffredinol a heb eu gosod yn briodol yn y cyd-destun. • Strwythur rhesymol. • Mae'n dod i gasgliad sylfaenol.
1-3	<ul style="list-style-type: none"> • Trafodaeth arwynebol o'r ddadl. • Y sylwadau gwerthusol yn arwynebol. • Diffyg strwythur yn yr ateb. • Dim casgliad.
0	<ul style="list-style-type: none"> • Ateb amhriodol wedi'i roi. • Dim ymgais i roi ymateb.

ADRAN B – Egwyddorion Ymchwil

2. Amlinellwch brif nodweddion astudiaeth achos. [3]

Gallai atebion gynnwys:

- Astudiaeth hydredol.
- Ymchwiliad manwl o ffenomen.
- Dadansoddiad disgrifiadol, archwiliadol neu esboniadol o berson, grŵp neu ddigwyddiad.
- Astudiaeth holistig gan un neu fwy o fethodolegau.
- Ymholiad empiraidd sy'n ymchwilio ffenomen yn ei gyd-destun go iawn.

- Unrhyw nodwedd briodol arall

Marciau	AA1
3	<ul style="list-style-type: none"> • Disgrifiad trylwyr o astudiaeth achos wedi'i roi. • Defnydd priodol o derminoleg.
2	<ul style="list-style-type: none"> • Disgrifiad sylfaenol o astudiaeth achos. • Peth terminoleg i'w weld.
1	<ul style="list-style-type: none"> • Disgrifiad arwynebol. • Gall fod ar ffurf rhestr.
0	<ul style="list-style-type: none"> • Diffiniad anghywir wedi'i roi • Dim ymgais i roi ymateb.

3. Nodwch y tair lefel foesol a ddefnyddiodd Kohlberg i asesu ei gyfranogwyr yn ei ymchwil '*Y plentyn fel athronydd moesol*' (1968). [3]

Ateb enghreifftiol:

Y lefel gyngonfensiynol yw'r gyntaf o dair lefel o feddwl moesol; confensiynol yw'r ail lefel, a'r drydedd lefel yw'r lefel ôl-gonfensiynol (derbyniwch ymreolaethol am y drydedd lefel hefyd).

Marciau	AA1
3	<ul style="list-style-type: none"> • Nodi'r tair lefel foesol yn gywir.
2	<ul style="list-style-type: none"> • Nodi dwy o'r tair lefel foesol yn gywir.
1	<ul style="list-style-type: none"> • Nodi un lefel foesol yn gywir.
0	<ul style="list-style-type: none"> • Ateb amhriodol wedi'i roi. • Dim ymgais i roi ymateb.

4. (a) Gan gyfeirio at '*Astudiaeth ymddygiadol o ufudd-dod*' Milgram (1963), disgrifiwch brif nodweddion ymchwil sy'n cael eu cynnal mewn amgylchedd labordy. [6]

Gellir rhoi marciau am ddisgrifiad o'r canlynol:

- Amodau rheoledig – defnydd Milgram o labordy i arsylwi cyfranogwyr ym Mhrifysgol Yale, unrhyw fanylion am gynllun y ddwy ystafell.
- Gweithdrefnau safonedig (yn caniatáu am ddyblygu) – defnydd Milgram o bromtiau safonedig, offer, ymatebion gan y 'dysgwr' ar yr amrywiol lefelau o sioc ac ati.
- Rheoli newidynnau a chofnodi data – coelbrenni wedi'u rigio i'r athro a'r dysgwr, sut y cofnodwyd ymatebion yr 'athro' h.y. mesurau ymddygiadol.
- Unrhyw ymatebion priodol eraill.

Marciau	AA1
5-6	<ul style="list-style-type: none"> • Mae'r disgrifiad a'r lefel cywirdeb yn drylwyr. • Mae dyfnder ac amrediad i'w gweld. • Defnydd effeithiol o derminoleg briodol. • Bydd cysylltiadau ag ymchwil Milgram yn cael eu cysylltu'n benodol â bôn y cwestiwn.
3-4	<ul style="list-style-type: none"> • Mae'r disgrifiad a'r lefel cywirdeb yn rhesymol. • Mae dyfnder ac amrediad i'w gweld, ond efallai nad ydynt yn gytbwys. • Defnydd da o derminoleg briodol. • Mae'r cysylltiadau ag ymchwil Milgram yn gyfyngedig.
1-2	<ul style="list-style-type: none"> • Mae'r disgrifiad a'r lefel cywirdeb yn sylfaenol. • Efallai nad yw'r cysylltiadau ag ymchwil Milgram yn cael eu cysylltu'n dda â bôn y cwestiwn. • Ychydig iawn o derminoleg briodol sy'n cael ei defnyddio.
0	<ul style="list-style-type: none"> • Ateb amhriodol wedi'i roi. • Dim ymgais i roi ymateb.

Dyma rai o'r canlyniadau o 'Astudiaeth Ymddygiadol o ufudd-dod' Milgram (1963).

Label Generadur	Foltedd	Nifer y cyfranogwyr a stopiodd ar y foltedd hwn
Sioc Ddwys	255	0
	270	0
	285	0
	300	5
Sioc Ddwys Eithafol	315	4
	330	2
	345	1
Perygl: Sioc Ddifrifol	375	4
	390	2
	405	1
	420	1
XXX	435	0
	450	26

- (b) Gan ddefnyddio'r data yn y tabl uchod, cyfrifwch amrediad y foltiau cafodd eu rhoi gan y cyfranogwyr. Dangoswch eich gwaith cyfrifo. [2]

- Foltedd uchaf cafodd ei roi = 450 Foltedd isaf cafodd ei roi = 255 $450 - 255 = 195$ folt + 1. Amrediad y foltiau cafodd eu rhoi gan y cyfranogwyr yn ymchwil Milgram oedd 196 folt.
- Mae'r canlynol yn dderbyniol fel ateb hefyd: Foltedd uchaf cafodd ei roi = 450 Foltedd isaf cafodd ei roi = 255 $450 - 255 = 195$ folt. Amrediad y foltiau cafodd eu rhoi gan y

Marciau	AA2
2	<ul style="list-style-type: none"> Mae'r amrediad cywir o foltiau wedi'i roi a'r cyfrifiadau i gyfrifo'r amrediad yn gywir.
1	<ul style="list-style-type: none"> Mae'r amrediad cywir wedi'i roi, ond nid oes cyfrifiadau i'w gweld. Mae'r cyfrifiadau i gyfrifo'r amrediad yn gywir, ond mae'r amrediad terfynol neu'r folteddau a ddefnyddiwyd yn anghywir.
0	<ul style="list-style-type: none"> Ateb amhriodol a chyfrifiadau wedi'u rhoi. Dim ymgais i roi ymateb.

5. Beth yw ystyr y term 'cyd-newidynnau'? [2]

Ateb enghreifftiol: Mae cyd-newidynnau'n dangos bod dau swm neu fwy yn cael eu mesur mewn cydberthyniad gan yr ymchwilydd ac mae'r symiau hyn yn gallu amrywio neu beidio â'i gilydd.	
Marciau	AA1
2	<ul style="list-style-type: none"> • Diffiniad clir a manwl wedi'i roi.
1	<ul style="list-style-type: none"> • Diffiniad sylfaenol.
0	<ul style="list-style-type: none"> • Diffiniad anghywir wedi'i roi. • Dim ymgais i roi ymateb.

6. Cafodd ymchwil ei gynnal i weld a yw myfyrwyr sy'n gwenu mwy ar eu hathrawon yn cael graddau darogan uwch na'r rhai sy'n gwenu llai. Cafodd ymddygiad gwenu myfyrwyr ei sgorio gan gynorthwydd dysgu oedd yn bresennol yn ystod tair gwrs. Yna cafodd y sgorau hyn eu cymharu â graddau darogan y myfyrwyr.

(a) Ysgrifennwch ragdybiaeth nwl briodol ar gyfer yr ymchwil uchod. [2]

Ateb enghreifftiol: <ul style="list-style-type: none"> • Ni fydd gwahaniaeth yng ngraddau darogan y myfyrwyr sy'n gwenu mwy ar eu hathrawon na'r rhai sy'n gwenu llai. 	
Marciau	AA2
2	<ul style="list-style-type: none"> • Rhagdybiaeth nwl briodol wedi'i rhoi gyda'r ddau gyflwr wedi'u nodi'n glir.
1	<ul style="list-style-type: none"> • Rhagdybiaeth nwl briodol wedi'i rhoi gydag un cyflwr yn unig wedi'i nodi'n glir.
0	<ul style="list-style-type: none"> • Rhagdybiaeth nwl amhriodol wedi'i rhoi. • Dim ymgais i roi ymateb.

(b) Roedd y cynorthwydd dysgu yn defnyddio samplu amser i sgorio'r ymddygiad gwenu. Disgrifiwch sut gallai'r cynorthwydd dysgu fod wedi defnyddio'r dechneg hon. [3]

Ateb enghreifftiol: <ul style="list-style-type: none"> • Samplu amser – lle mae'r cynorthwydd dysgu yn cofnodi ymddygiad gwenu'r myfyrwyr ar ysbeidiau penodol yn ystod y wers, e.e. bob 15 munud, ac yna'n creu sgôr gwenu i bob cyfranogwr mae'n ei arsylwi. 	
Marciau	AA2
3	<ul style="list-style-type: none"> • Esboniad trylwyr o sut gallai'r dechneg samplu gael ei defnyddio wedi'i osod yn llawn yn y cyd-destun.
2	<ul style="list-style-type: none"> • Esboniad rhesymol o sut gallai'r dechneg samplu gael ei defnyddio nad yw wedi'i osod yn llawn yn y cyd-destun.
1	<ul style="list-style-type: none"> • Esboniad sylfaenol o sut gallai'r dechneg samplu gael ei defnyddio, ond nid yw wedi'i osod yn y cyd-destun.
0	<ul style="list-style-type: none"> • Esboniad amhriodol wedi'i roi • Dim ymgais i roi ymateb.

- (c) Esboniwch **un** fantais ac **un** anfantais cael y cynorthwydd dysgu yn cynnal ymchwil yn y maes. [4]

Mae'r cwestiwn hwn yn canolbwyntio ar gymhwyso gwybodaeth a dealltwriaeth o brosesau, technegau a gweithdrefnau gwyddonol mewn cyd-destun damcaniaethol, wrth drin data ansoddol.

Manteision:

- Mae dilysrwydd allanol ymchwil sy'n cael ei gynnal yn y dosbarth yn debygol o fod yn uwch nag ymchwil sy'n cael ei gynnal mewn labordy
- Nodweddion awgrymu ymateb a thuedd dymunoldeb cymdeithasol yn llai tebygol gan y myfyrwyr o gymharu â'r labordy (yn enwedig fel rhan o arsylwi cudd)

Anfanteision:

- Mae ymchwil yn debygol o fod yn llai dibynadwy nag ymchwil sy'n cael ei gynnal mewn labordy – nid yw'r gweithdrefnau bob amser yn rhai safonedig ac mae'n fwy anodd rheoli newidynnau allanol/dryslud
- Lefelau is o ddilysrwydd mewnol nag ymchwil wedi'i gynnal mewn labordy – mae'n agored i duedd ymchwilydd ar ran y cynorthwydd dysgu a dehongliad ymddygiadau
- Materion moesegol posibl – cydsyniad gan y myfyrwyr, twyll ac ati
- Unrhyw fanteision/anfanteision priodol eraill

Marciau	AA2
4	<ul style="list-style-type: none"> • Mantais AC anfantais glir a manwl wedi'u rhoi, wedi'i gosod yn eu cyd-destun llawn.
3	<ul style="list-style-type: none"> • Mantais AC anfantais glir wedi'u rhoi, ond un yn unig sydd wedi'i osod yn ei gyd-destun llawn.
2	<ul style="list-style-type: none"> • Mantais AC anfantais wedi'u rhoi, ond nid oes esboniad llawn ohonynt. • Mantais NEU anfantais wedi'i roi sydd wedi'i osod yn ei gyd-destun llawn.
1	<ul style="list-style-type: none"> • Mantais NEU anfantais wedi'i roi ond nid yw wedi'i osod yn ei gyd-destun llawn.
0	<ul style="list-style-type: none"> • Ateb amhriodol wedi'i roi. • Dim ymgais i roi ymateb.

Cofnododd y cynorthwydd dysgu yr ymddygiadau gwenu cyfartalog yn ogystal â'r graddau wedi'u darogan gan yr athro. Mae'r canlyniadau i'w gweld yn y tabl isod:

Rhif y cyfranogwr	1	2	3	4	5	6	7	8	9	10
Sgôr ymddygiad gwenu	3	4	2	0	2	1	4	5	2	3
Gradd ddarogan	C	B	D	D	C	E	B	A	A	C

(Sgôr ymddygiad gwenu: 0 = prin yn gwenu o gwbl i 5 = gwenu drwy'r amser)

- (ch) Nodwch ac esboniwch sut gallai **un** newidyn dryslyd fod wedi effeithio ar sgôr ymddygiad gwenu un myfyriwr. [2]

Mae'r cwestiwn hwn yn canolbwyntio ar gymhwyso syniadau gwyddonol mewn cyd-destun damcaniaethol, wrth drin data ansoddol.

Atebion enghreifftiol:

- Bywyd cartref y myfyriwr – mae'n bosibl bod y cyfranogwr yn gwenu llai oherwydd marwolaeth neu brofedigaeth neu amgylchiadau y tu hwnt i'r norm (megis dadl â rhieni/frindiau), sy'n golygu bod eu sgôr yn annilys.
- Math o wers – gan fod yr ymchwil wedi cynnwys sgorau ar draws y tair gwerau gall hyn olygu mai camliwio yw ymddygiad gwenu rhai myfyryr. Er enghraifft, nid ydyn nhw'n hoff o'r wers y cawsant eu harsylwi ynddi ond maen nhw'n mwynhau gwerau eraill felly byddant yn gwenu mwy efallai.
- Hwyliau'r cynorthwydd dysgu – ni chafodd pob arsylw ei gyflawni ar yr un pryd, felly gallai hwyliau'r cynorthwydd dysgu sy'n cofnodi'r wybodaeth effeithio'n negyddol ar ddilysrwydd y sgorau gwenu, lle mae hwyliau drwg yn golygu bod sgorau'n wael ac i'r gwrthwyneb.

- Unrhyw newidyn dryslyd priodol arall

NODER: Newidynnau dryslyd yw'r newidynnau hynny sy'n effeithio ar rai cyfranogwyr ond ddim cyfranogwyr eraill, sy'n golygu bod canlyniadau negyddol ar gyfer dilysrwydd

Marciau	AA2
2	<ul style="list-style-type: none"> • Newidyn dryslyd priodol wedi'i nodi a'i esbonio yn ei gyd-destun.
1	<ul style="list-style-type: none"> • Newidyn dryslyd priodol wedi'i nodi, ond nid yw hyn wedi'i esbonio yn ei gyd-destun.
0	<ul style="list-style-type: none"> • Newidyn dryslyd amhriodol/anghywir wedi'i roi . • Dim ymgais i roi ymateb.

- (d) Nodwch y lefel mesuriad ar gyfer y 'sgôr ymddygiad gwenu'. [1]

<ul style="list-style-type: none"> • Data trefnol 	
Marciau	AA2
1	<ul style="list-style-type: none"> • Lefel briodol o fesur wedi'i nodi.
0	<ul style="list-style-type: none"> • Lefel amhriodol o fesur wedi'i nodi. • Dim ymgais i roi ymateb.

- (dd) (i) Nodwch fesur o ganolduedd a allai gael ei ddefnyddio i grynhoi graddau'r myfyrwyr ac esboniwch pam mae'r mesur hwn yn briodol. [3]

Atebion enghreifftiol:

- Modd – gellir cyfrifo'r radd mwyaf cyffredin/niferus mewn set i roi darlun cyffredinol o'r graddau, lle na fydd anomaleddau'n effeithio ar y canlyniadau. Gellid cymharu hyn wedyn â sgôr ymddygiad gwenu cymedrig i gael darlun cyffredinol o sut mae ymddygiad gwenu'n effeithio ar raddau darogan.
- Canolrif – y sgôr ganol mewn set o ddata, fel y graddau uchod, y mae'n bosibl ei chyfrif i roi'r radd ganolog yn y set ddata. Gellid cymharu hyn wedyn â'r sgôr ymddygiad gwenu cymedrig neu ganolrif i ddod i gasgliadau am effaith gwenu ar raddau darogan.
- Unrhyw ateb arall wedi'i gyfiawnhau'n berthnasol (e.e. cymedr os bydd y radd yn cael ei throsi'n farc)

Marciau	AA2
3	<ul style="list-style-type: none"> • Mesur priodol o ganolduedd wedi'i nodi a'i esbonio'n llawn yn ei gyd-destun.
2	<ul style="list-style-type: none"> • Mesur priodol o ganolduedd wedi'i nodi, ond nid yw'n cynnwys cyfiawnhad llawn, neu nid yw'n cael ei ddefnyddio yn ei gyd-destun.
1	<ul style="list-style-type: none"> • Mesur priodol o ganolduedd wedi'i nodi, ond nid yw wedi'i gyfiawnhau na'i ddefnyddio yn ei gyd-destun.
0	<ul style="list-style-type: none"> • Ateb amhriodol/anghywir wedi'i roi. • Dim ymgais i roi ymateb.

- (ii) Cyfrifwch y mesur o ganolduedd rydych chi wedi'i nodi yn (dd)(i). Dangoswch eich gwaith cyfrifo. [2]

Atebion enghreifftiol:

- Modd – $A = 2$, $B = 2$, $C = 3$, $D = 2$ ac $E = 1$ (gellir defnyddio siart cyfrif neu restr o raddau mewn trefn hefyd). Mae gradd C yn cael ei dewis fel y radd foddol.
- Canolrif – mae graddau'n debygol o gael eu gosod mewn trefn A A B B C C C D D E lle mae'r canolbwynt (rhwng y 2 radd C gyntaf) yn debygol o gael ei nodi. Mae gradd C yn cael ei dewis fel y radd ganolrif.
- Unrhyw ateb arall wedi'i gyfrifo'n berthnasol (e.e. cymedr)

Marciau	AA2
2	<ul style="list-style-type: none"> • Mae mesur priodol o ganolduedd wedi'i gyfrifo, a'r cyfrifiadau wedi'u dangos.
1	<ul style="list-style-type: none"> • Mae mesur priodol o ganolduedd wedi'i gyfrifo, nid yw'r cyfrifiadau wedi'u dangos. • Mae'r cyfrifiadau wedi'u dangos, ond nid yw'r mesur terfynol o ganolduedd wedi'i ddangos.
0	<ul style="list-style-type: none"> • Mae mesur gwahanol o ganolduedd i'r hyn a nodwyd yn rhan dd(i) wedi'i gyfrifo. • Ateb/gwaith cyfrifo amhriodol/anghywir. • Dim ymgais i roi ymateb.

- (e) Ystyriwch **ddau** fater moesegol a allai fod wedi codi yn yr ymchwil uchod, ac **un** ffordd o ddelio â **phob un** o'r materion moesegol rydych chi wedi eu nodi. [8]

Gallai atebion gynnwys:

Materion:

- Diffyg cydsyniad gwybodus llawn – mae'r myfyrwyr dan 18 oed ac felly rhaid gofyn caniatâd y rhieni. Mae materion cydsyniad yn digwydd os na chafodd hyn ei wneud.
- Twyll – mae'n debygol nad yw'r myfyrwyr yn gwybod bod rhywun yn eu harsylwi a'u graddau darogan yn cael eu cymharu â'u hymddygiad gwenu.
- Amddiffyn rhag niwed seicolegol – unwaith y bydd y myfyrwyr yn gweld y canlyniadau mae'n bosibl y byddan nhw'n cywilyddio neu'n teimlo dan straen bod eu sgôr gwenu wedi'i gysylltu â faint maen nhw'n gwenu (yn arbennig o wir yn achos samplau bach, gan y byddai'n rhwydd iawn i'r myfyrwyr weithio allan pwy yw pwy).

Ffyrdd o ddelio â materion:

- Adrodd yn ôl – gwneud y myfyrwyr/eu rhieni'n ymwybodol o'r astudiaeth ar ôl iddi ddigwydd.
 - Cydsyniad dirprwyol – cydsyniad gan oedolyn hŷn arall yn yr ysgol, e.e. y pennaeth.
 - Yr hawl i dynnu'n ôl canlyniadau myfyrwyr/eu rhieni nad ydynt yn cydsynio.
 - Cyfrinachedd – rhoi rhifau cyfranogwr i'r myfyrwyr a sicrhau nad yw data'n cael eu camddefnyddio.
- Unrhyw faterion a datrysiadau moesegol perthnasol eraill

Am bob mater moesegol:

1 marc am nodi mater moesegol priodol

1 marc am gysylltu'r mater moesegol â'r senario newydd

1 marc am nodi ffordd briodol o ddelio â'r mater moesegol a nodwyd

1 marc am gysylltu'r ffordd briodol o ddelio â'r mater moesegol a nodwyd â'r senario newydd


7. Roedd cynorthwyr gwryw mewn canolfan siopa am dair awr ar ddau fore dydd Llun gwahanol. Ar y dydd Llun cyntaf roedd e'n gwisgo siwt ac ar yr ail fore roedd e'n gwisgo dillad chwaraeon. Ar y ddau ddydd Llun roedd e'n gofyn i'r bobl oedd yn mynd heibio a fydden nhw'n cytuno i gefnogi yr un elusen plant. Roedd yr ymchwil yn defnyddio sampl cyfle.

Mae'r canlyniadau i'w gweld yn y tabl isod:

Math o ddillad roedd y cynorthwyr yn ei wisgo	Nifer y bobl a gytunodd i gefnogi'r elusen plant
Siwt	14
Dillad chwaraeon	7

- (a) Gan ddefnyddio data o'r tabl uchod, tynnwch siart bar i ddangos canlyniadau'r ymchwil hwn [4]

Siart bar enghreifftiol:



1 marc am:

- Yr echelinau wedi'u labelu'n gywir
- Graddfa addas

Y data wedi'u plotio'n gywir (2 farc)

Y data wedi'u plotio'n gywir ar y cyfan (1 farc)

Marciau	AA2
----------------	------------

(b) Nodwch y newidyn annibynnol yn yr ymchwil uchod.

[1]

Ateb enghreifftiol: <ul style="list-style-type: none">• IV – Math o ddillad roedd y cynorthwywr yn ei wisgo.	
Marciau	AA2
1	<ul style="list-style-type: none">• Mae'r IV wedi'i nodi'n gywir.
0	<ul style="list-style-type: none">• Ateb amhriodol wedi'i roi.• Dim ymgais i roi ymateb.

(c) Nodwch ac esboniwch y cynllun arbrawf gafodd ei ddefnyddio yn yr ymchwil uchod.

[2]

Ateb enghreifftiol: Cafodd cynllun grwpiau annibynnol ei ddefnyddio, lle mae cyfranogwyr gwahanol yn cael eu defnyddio yn y ddau gyflwr. Er enghraifft roedd y cyfranogwyr ar y dydd Llun cyntaf, pan roedd y cynorthwywr yn gwisgo siwt, yn wahanol i'r cyfranogwyr wnaeth gymryd rhan ar yr ail ddydd Llun, pan roedd y cynorthwywr yn gwisgo dillad chwaraeon.	
Marciau	AA2
2	<ul style="list-style-type: none">• Mae cynllun arbrawf priodol wedi'i nodi a'i esbonio yn ei gyd-destun.
1	<ul style="list-style-type: none">• Mae cynllun arbrawf priodol wedi'i nodi, ond nid yw hyn wedi'i esbonio yn ei gyd-destun.
0	<ul style="list-style-type: none">• Mae cynllun arbrawf amhriodol/anghywir wedi'i roi .• Dim ymgais i roi ymateb.

(ch) Disgrifiwch **un** mater o ddilysrwydd yn yr ymchwil hwn, ac esboniwch **un** ffordd o ddelio â'r mater hwn.

[4]

Materion dilysrwydd enghreifftiol:

- Materion dilysrwydd poblogaeth – mae tuedd yn debygol yn achos samplu cyfle, samplu diwylliant (dim ond un ganolfan siopa).
- Materion dilysrwydd mewnol – cynllun ymchwil gwael, mesur newidynnau e.e. wnaeth y bobl a gytunodd i gefnogi'r elusen plant gyfrannu at yr elusen mewn gwirionedd ynteu wnaethon nhw ganslo yn ystod y cyfnod 'meddwl'?
- Newidynnau allanol neu ddryslyd - ffactorau eraill a allai fod wedi effeithio ar y cyfraddau cytuno i gefnogi ar y dydd neu yn y cyfnod amser hwn e.e. trychineb cenedlaethol/ymgyrch elusennol wedi digwydd rhwng wythnos un ac wythnos 2 a phobl wedi rhoi arian i elusen yn barod erbyn yr ail wythnos felly nid y dillad oedd yn effeithio ar y niferoedd yn cytuno i gefnogi, NEU ystumiau wynebol y cynorthwywr ac ati.
- Unrhyw faterion perthnasol eraill.

Marciau	AA2
4	<ul style="list-style-type: none"> • Mae mater dilysrwydd a datrysiad perthnasol wedi'u disgrifio'n llawn, gyda'r naill agwedd a'r llall yn cael eu cysylltu â'r senario newydd.
3	<ul style="list-style-type: none"> • Mae mater dilysrwydd a datrysiad perthnasol wedi'u disgrifio'n llawn, gyda'r naill agwedd a'r llall yn cael eu cysylltu â'r senario newydd.
2	<ul style="list-style-type: none"> • Mae mater dilysrwydd a datrysiad perthnasol wedi'u disgrifio'n llawn, ond nid yw'r naill agwedd a'r llall wedi'u cysylltu'n benodol â'r senario newydd. • Mae mater dilysrwydd wedi'i ddisgrifio a'i gysylltu'n bendant â'r senario newydd, ond ni cheir datrysiad priodol.
1	<ul style="list-style-type: none"> • Mae mater dilysrwydd priodol wedi'i ddisgrifio, ond nid yw wedi'i gysylltu'n benodol â'r senario newydd.
0	<ul style="list-style-type: none"> • Cafodd y mater dilysrwydd ei enwi'n unig, nid oes disgrifiad. • Ateb amhriodol wedi'i roi. • Dim ymgais i roi ymateb.

(d) Esboniwch **un** fantais ac **un** anfantais samplu cyfle.

[4]

Manteision:

- Mae'n gyflymach na thechnegau samplu eraill, fel gwirfoddoli, gan eich bod yn dewis y cyfranogwyr sydd ar gael ar y pryd fel y mynnwch chi. Nid oes angen gwybod eu manylion ymlaen llawn (fel yn achos samplu haenedig) – mae'n cymryd llai o amser na thechneg samplu xxx.

D.S.: mae angen cymharu â thechnegau eraill er mwyn caniatáu 'cyflym' a/neu 'rhwydd'

- Cost-effeithiol, gan nad oes angen gwario arian yn hysbysebu (fel yn achos samplau gwirfoddoli) nac ar greu ffrâm samplu arbenigol.

Anfanteision:

- Mae'n agored i duedd ymchwilydd – mae'n bosibl y bydd yn dewis cyfranogwyr sy'n 'edrych yn gymwynasgar' yn unig
- Mae'n debygol o gynnwys tuedd sampl, megis diwylliant, gan eu bod (yn yr achos hwn) wedi'u dethol o un maes cul (canolfan siopa leol).
- Unrhyw fanteision/anfanteision priodol eraill.

Marciau	AA3
4	<ul style="list-style-type: none">• Mantais ac anfantais glir a manwl wedi'u rhoi a'u hesbonio'n llawn.
3	<ul style="list-style-type: none">• Mantais AC anfantais glir wedi'u rhoi, ond un yn unig sydd wedi'i esbonio'n llawn.
2	<ul style="list-style-type: none">• Mantais AC anfantais wedi'u rhoi, ond nid oes esboniad llawn ohonynt.• Mantais NEU anfantais wedi'i roi sydd wedi'i esbonio'n llawn.
1	<ul style="list-style-type: none">• Mantais NEU anfantais wedi'i roi ond nid yw wedi'i esbonio'n llawn.
0	<ul style="list-style-type: none">• Ateb amhriodol wedi'i roi.• Dim ymgais i roi ymateb.

- (ii) Esboniwch sut gallai'r ymchwiler uchod gael ei wella drwy ddefnyddio techneg samplu wahanol. [4]

Atebion enghreifftiol:

- Newid y dull casglu Data – Gellid gofyn i'r cynorthwyr ofyn i bob nfed person yn unig yn y ganolfan siopa.
- Newid y gweithdrefnau/lleoliad dulliau gweithredu – gellid gofyn i'r cynorthwyr fynd i ofyn ym mhob nfed tŷ ar stryd/mewn cod post penodol er mwyn cael cyfraniadau (yn gwisgo mathau gwahanol o ddillad).
- Unrhyw welliannau priodol eraill.

Marciau	AA3
4	<ul style="list-style-type: none"> • Mae esboniad trylwyr o sut gellid gwella'r dechneg samplu, sy'n cysylltu'n benodol a'r senario newydd.
3	<ul style="list-style-type: none"> • Mae esboniad rhesymol o sut gellid gwella'r dechneg samplu, sy'n cysylltu'n â'r senario newydd.
2	<ul style="list-style-type: none"> • Mae esboniad sylfaenol o sut gellid gwella'r dechneg samplu. • Gall fod cysylltiadau gwan â'r senario newydd i'w gweld, NEU gall unrhyw ymgais i wneud cysylltiad fod yn ddigyswllt/cymysglyd.
1	<ul style="list-style-type: none"> • Mae esboniad arwynebol o sut gellid gwella'r dechneg samplu.
0	<ul style="list-style-type: none"> • Ateb amhriodol wedi'i roi • Dim ymgais i roi ymateb